## COVID-19 Update – 31st Match

In today's COVID-19 update from Cardiff Council: a second hotel opens to help the homeless self-isolate through the outbreak, refinements to the new weekly waste collections, Cardiff shows its appreciation for our waste crews, the latest on schools, and social distancing in our allotments.

### Extra homeless provision for city's most vulnerable

Plans are revealed to take on a further hotel to increase provision for homeless individuals during the Coronavirus crisis.

Cardiff Council announced last week that it had secured additional accommodation at the OYO Hotel on Clare Street in Riverside, for rough sleepers and those living in emergency accommodation, where individuals sleep in shared spaces and self-isolation is not possible.

The aim of the additional accommodation was to ensure that any individuals with underlying health conditions, or who are showing symptoms of Coronavirus COVID-19, will be able to self-isolate.

All 41 bedrooms in the OYO hotel are now occupied. Residents receive three meals a day and support staff are available around the clock to ensure the provision is safe and appropriate advice and help is always available.

This self-contained accommodation, as well as the two newly completed shipping container schemes in Ely and Butetown, is part of a raft of new provision being brought on line by Cardiff Council to provide extra support to vulnerable people.

The Council announced that a second hotel, providing 89 beds, will open today to provide more individuals with a safe and secure place to self-isolate and recover. As with the OYO Hotel and shipping container accommodation, the YHA Cardiff Central hostel building in Tyndall Street Splott, will have support staff on site 24-hours a day.

Read more here: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23521.html

### Refining the new weekly waste collections

Yesterday, Monday 30th March, Cardiff Council introduced a completely new schedule for collecting waste and recycling (full details available to read here: https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23490.html).

Normally, a change in service as big as this would be months in the planning with lots of communication from the council in the weeks leading up to roll-out. But in this time of COVID-19 crisis, the council is having to move quickly to help keep the public and staff as safe as possible, and this does mean that further changes are always likely to be needed as collection arrangements are refined and tested.

After yesterday’s collections, the council has reminded people to make sure that their waste and recycling is put out by 6am on the day of collection. This is because our crews could be collecting at a different time than normal in some areas, and people have understandably got in to the habit over the years of putting their bins out at a certain time, because they knew they normally would have been collected late morning, or in the afternoon etc.

We have also had to change the arrangements for garden waste. Originally we said that residents could put small amounts into black bins/red striped bags, but we’ve had to change this as it runs the risk of larger amounts of garden waste being put out.

Our Energy from Waste contractor has confirmed that large amounts of garden waste would cause significant operational issues, and increase the time it takes to process the waste.

With that in mind, we are now sharing the following information:

Unfortunately, due to the prioritisation of resources we have temporarily SUSPENDED all garden waste collections. However, this doesn’t mean you should stop enjoying the garden. You have a number of options for dealing with your garden waste.

The most environmentally-friendly way of dealing with grass cuttings, hedge trimmings etc. is to home compost. This can be as simple as putting all your cuttings in a neat pile in a quiet corner of the garden. Mix with small amounts of paper, cardboard and kitchen food waste peelings to create a pile that will break down within a few weeks to create great compost that can be reused in the garden. Alternatively, keep your garden waste in storage in your green bin/re-useable sacks.

This updated graphic has been released which includes the recent changes made as the collection arrangements are refined. Please feel free to share this:

# RECYCLING AND WASTE COLLECTIONS HAVE NOW CHANGED

## IF YOU LIVE IN A BLACK BIN AREA

Your continuing kerbside collections will be WEEKLY
Bulky items/additional bags of waste will not be collected

Garden waste collections are suspended

Separate collections of glass are suspended

**Use your black bin for non-recyclable waste (including nappies/incontinence pads) and food waste.**

**Continue to use your green recycling bags as normal, and put these next to your bin for collection.**

**Hygiene (nappies/incontinence waste) will be collected weekly. You can continue to use your yellow bags, or you can use black bags. Put them into your black bin.** If they will not fit, our teams know which properties were using the hygiene service, and will collect additional bags from outside your bin

## IF YOU LIVE IN A STRIPED BAG AREA

Your continuing kerbside collections will be WEEKLY
Bulky items/additional bags of waste will not be collected

Garden waste collections are suspended

Separate collections of glass are suspended

Use your **red striped bags for non-recyclable waste** (including nappies/incontinence pads).

**Use your kerbside caddy for food waste***

**Continue to use your green recycling bags as normal, and put these next to your bin for collection**

**Hygiene (nappies/incontinence waste) will be collected weekly. You can continue to use your yellow bags, or you can use black bags.** Our teams know which properties were using the hygiene service, and will collect additional bags from outside your property.

## YOUR COLLECTION DAY WILL NOT CHANGE, BUT THE TIME WE COLLECT YOUR WASTE MAY CHANGE

To make sure you don't miss your collection, please make sure your waste is out by 6am on your collection day. Your collection may take place any time between 6am-10pm.

### HOW WE WILL BE COLLECTING YOUR WASTE:

To simplify and ensure waste operations can continue with a reduced workforce, we may be unable to sort recyclable waste during the emergency, as such, it will go to the energy from waste plant along with the residual waste. This is a public health crisis, so this is the safest way to dispose of waste that may be carrying COVID -19.

Where we are continuing to collect food waste separately, this will be going to our Anaerobic Digestion plant.

### WHY SHOULD WE CONTINUE TO SEPARATE OUR RECYCLING?

We're asking residents in bag areas to continue to separate their food waste. This will keep it contained in a kerbside caddy and reduce the risk of your bags being split open.

We're asking you to continue to separate other materials in green bags, just as you normally would. We recognise that there would be no space in your black bin/red striped bags for these items if you didn't have a green bag collection.

Washing these materials before putting them into your green bags keeps material clean and hygienic, for both you and our collection teams.

**We want everyone to stay in their normal recycling habits. Once this crisis is over, we are confident that we can be the leading core recycling City in the UK again.**

### HOW CAN YOU HELP KEEP OUR STAFF SAFE:

Disinfect your bin/kerbside caddy handles before, and after your collection. Follow the advice about infectious waste disposal which can be found at **www.cardiff.gov.uk/coronavirus**

Please bear with us, as our collection teams develop this new way of working. Give our teams a wave and a smile when you see them - they're continuing to **#workforcardiff** and a smile helps boost morale for everyone.

*If you do not have a kerbside caddy, kitchen caddy or caddy liners, these can be ordered online at **www.cardiff.gov.uk/recycling** or via the CardiffGov app

CARDIFF
CAERDYDD

**Residents show their appreciation to the waste collection crews**

Parents and children have started sending personal messages to their waste collection crews by attaching pictures and messages to their green recycling bags and black wheeled bins.

Yesterday (March 30), residents living in Pentyrch, Radyr, Fairwater and Creigiau have attached morale boosting pictures and captions to their bins and waste bags – many with the simplest but most welcome message 'thank you'.

During the public health crisis - with the exception of garden waste - Cardiff Council has moved to weekly kerbside collections. This is to ensure that there isn't a build-up of waste on the city's streets.

Cllr Michael Michael, Cabinet Member for Clean Streets, Recycling and the Environment, said: "With this ongoing pandemic, our waste crews are doing their best in very challenging conditions.

"At a time like this, keeping morale high in our workforce is very important and the crews are very grateful indeed for the messages that they have received. It's just fantastic to see children and probably a few adults too leaving messages for the crews to show their appreciation.

"The Council aims to carry on delivering essential services to residents during the outbreak. But to do that we need residents to follow the instructions which have been given on how they should present their waste.

"We've moved to a single weekly collection for everything but garden waste. The energy from waste plant can't accept it.

"I know some residents will have questions on how things are working and answers to many of those are available here

"Crucially, the Council is also diverting crews so that we can concentrate on removing NHS waste throughout the emergency. With news that the Principality Stadium is also being turned into a hospital, the Council is preparing plans on how we will service this new facility. We are doing all that we can with the stretched resources available. This is why we need people to work with us and understand why we have had to suspend garden waste collections. And had to change the way we are dealing with waste for now. We will return things to normal as soon as we can.

"It's also important people continue to recycle and use their green bags for this. We will be returning to a normal recycling process as soon as we can and it's important we don't break the habit of recycling correctly. Cardiff is one of the best recycling cities in the world and we want to be the best in the world.

"By working together we can all play a part in ensuring that waste is removed from the city's streets safely and as quickly as possible."

**Key worker child support**

Today we have processed a further 100 applications for priority key worker childcare places, to begin on Wednesday 1st April.

We are receiving a high number of applications and aim to offer more places as soon as possible.

For more information or to register please go to; https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Emergency-Planning-and-Resilience/coronavirus-information/key-worker-childcare/Pages/default.aspx

Any family that took up a childcare place at their local school last week will continue to be offered a place at their designated location.

**Social Distancing Arrangements for Allotments**

Cardiff's allotments can still be used during the ongoing COVID-19 outbreak, but in line with government advice, new guidance has been introduced to ensure they are used safely.

- If you are self-isolating, do not enter the site.
- Limit visits to 1 hour a day, in line with daily exercise recommendations.
- Observe social distancing with each other, keep 2 metres apart and minimise contact with each other.
- Visit alone - do not bring family and friends.
- Keep hand sanitiser with you and use it regularly, particularly before and after opening and closing gates and handling padlocks.
- Wear disposable gloves and change these regularly.
- Do not share tools. Wipe your own tools down after use.
- Do not wash your hands in water troughs.
- Stay on your own plot, do not enter other plots, even if you have had prior permission

With immediate effect all communal facilities are closed, including toilets.

## Diweddariad COVID-19 – 31 Mawrth

Yn y diweddariad ar COVID-19 a gafwyd heddiw gan Gyngor Caerdydd: y cynnydd diweddaraf yn y ddarpariaeth ddigartrefedd, mireinio'r casgliadau gwastraff wythnosol newydd, ac ati.

**Darpariaeth ddigartrefedd ychwanegol ar gyfer pobl fwyaf agored i niwed y ddinas**

Datgelir cynlluniau i ddefnyddio gwesty ychwanegol i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer unigolion digartref yn ystod yr argyfwng coronafeirws.

Cyhoeddodd Cyngor Caerdydd yr wythnos diwethaf ei fod wedi sicrhau llety ychwanegol yng Ngwesty'r OYO ar Clare Street yng Nglan-yr-afon, ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd a'r rhai sy'n byw mewn llety brys, pan fo unigolion yn cysgu mewn llety a rennir a lle nad yw hunanynysu yn bosibl.

Mae’r llety newydd hwn yn galluogi unrhyw unigolion sydd â chyflyrau iechyd gwaelodol, neu sy'n dangos symptomau Coronafeirws COVID-19, i hunanynysu.

Mae pob un o'r 41 ystafell wely yng ngwesty OYO bellach wedi'u meddiannu. Mae preswylwyr yn derbyn tri phryd y dydd ac mae staff cymorth ar gael dydd a nos i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddiogel a bod cyngor a chymorth priodol ar gael bob amser.

Mae'r llety hunangynhwysol hwn, yn ogystal â'r ddau gynllun cynwysyddion llongau sydd newydd eu cwblhau yn Nhrelái a Butetown, yn rhan o gyfres o ddarpariaethau newydd sy'n cael eu cyflwyno gan Gyngor Caerdydd i roi cymorth ychwanegol i bobl sy'n agored i niwed.

Cyhoeddodd y Cyngor y bydd ail westy, gydag 89 o welyau, yn agor heddiw i roi lle diogel i fwy o unigolion hunan-ynysu a gwella. Fel gyda Gwesty'r OYO a'r cynwysyddion llongau, bydd gan adeilad Hostel Canol Caerdydd yr YHA yn Stryd Tyndall Sblot, gymorth ar y safle 24 awr y dydd.

Derllanwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23522.html

**Mireinio'r casgliadau gwastraff wythnosol newydd**

Ddoe, dydd Llun 30 Mawrth, cyflwynodd Cyngor Caerdydd amserlen gwbl newydd ar gyfer casglu gwastraff ac ailgylchu (mae'r manylion llawn ar gael i'w darllen yma: https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23491.html ).

Fel arfer, byddai newid mor fawr â hyn mewn gwasanaeth yn gofyn am fisoedd o waith cynllunio gyda llawer o gyfathrebu gan y Cyngor yn yr wythnosau yn arwain at ei gyflwyno. Ond yn y cyfnod hwn o argyfwng COVID-19, mae'r Cyngor yn gorfod symud yn gyflym i helpu i gadw'r cyhoedd a staff mor ddiogel â phosibl, ac mae'n golygu y bydd angen newidiadau pellach wrth i ni fireinio'r trefniadau casglu newydd.

Yn dilyn y casgliadau ddoe, mae'r Cyngor wedi atgoffa pobl i wneud yn siŵr bod eu gwastraff a'u deunyddiau hailgylchu yn cael eu rhoi allan erbyn 6am ar y diwrnod casglu. Y rheswm am hyn yw y gallai ein criwiau fod yn casglu gwastraff ar adeg wahanol na'r arfer mewn rhai ardaloedd, ac mae'n ddealladwy bod pobl wedi mynd i'r arfer dros y blynyddoedd o roi eu biniau allan ar adeg benodol, gan eu bod yn gwybod y byddent fel arfer wedi cael eu casglu'n hwyr y bore, neu yn y prynhawn ayyb.

Rydym hefyd wedi gorfod newid y trefniadau ar gyfer gwastraff gardd. Yn wreiddiol, fe ddywedon ni y gallai preswylwyr roi ychydig bach o wastraff gardd yn y biniau du/bagiau stribed coch, ond rydyn ni wedi gorfod newid hyn gan ei bod hi'n risg y byddai mwy o wastraff gardd yn cael ei roi allan i'w gasglu.

Mae ein contractwr Troi Gwastraff yn Ynni wedi cadarnhau y byddai llawer iawn o wastraff gardd yn achosi problemau gweithredol sylweddol, ac yn cynyddu'r amser y mae'n ei gymryd i brosesu'r gwastraff.

Gyda hynny mewn golwg, rydym bellach yn rhannu'r wybodaeth ganlynol:

Yn anffodus, o ganlyniad i flaenoriaethu adnoddau, rydym wedi ATAL yr holl gasgliadau gwastraff gardd DROS DRO. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylech roi'r gorau i fwynhau'r ardd. Mae gennych nifer o opsiynau ar gyfer delio â'ch gwastraff gardd.

Y ffordd fwyaf ecogyfeillgar o ymdrin â glaswellt wedi ei dorri, tocion gwrychoedd ac ati yw trwy gompostio yn y cartref. Gall hyn fod mor syml â rhoi eich holl doriadau mewn pentwr taclus mewn cornel dawel yn yr ardd. Cymysgwch ychydig o bapur, cardfwrdd a chroen llysiau o wastraff bwyd i greu pentwr a fydd yn dadelfennu o fewn rhai wythnosau i greu compost gwych y gellir ei ailddefnyddio yn yr ardd. Fel arall, cadwch eich gwastraff gardd yn eich bin gwyrdd/sachau amldro.

Rhyddhawyd y graffig diweddaraf hwn sy'n cynnwys y newidiadau a wnaed yn ddiweddar wrth i'r trefniadau casglu gael eu mireinio. Mae croeso i chi rannu hwn:

# MAE CASGLIADAU AILGYLCHU A GWASTRAFF WEDI NEWID

## OS YDYCH CHI'N BYW MEWN ARDAL BINIAU DU

Bydd eich casgliadau ymyl y ffordd yn parhau i gael eu gwneud yn WYTHNOSOL

Ni chaiff eitemau swmpus/bagiau gwastraff ychwanegol eu casglu



Mae casgliadau gwastraff gardd wedi eu gohirio



Mae casgliadau gwydr ar wahân wedi eu gohirio

**Defnyddiwch eich bin du ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu (gan gynnwys cewynnau/padiau anymataliaeth) a gwastraff bwyd.**

**Parhewch i ddefnyddio'ch bagiau ailgylchu gwyrdd fel arfer, a rhowch y rhain nesaf at eich bin er mwyn eu casglu.**

**Bydd gwastraff hylendid (cewynnau/gwastraff anymataliaeth) yn cael ei gasglu'n wythnosol.**
**Gallwch barhau i ddefnyddio eich bagiau melyn, neu gallwch ddefnyddio bagiau du. Rhowch nhw yn eich bin du.** Os na fyddant yn ffitio, bydd ein timau'n gwybod pa eiddo oedd yn defnyddio'r gwasanaeth hylendid, a byddant yn casglu bagiau ychwanegol o'r tu allan i'ch bin.

## OS YDYCH YN BYW MEWN ARDAL BAGIAU STREIPIAU

Bydd eich casgliadau ymyl y ffordd yn parhau i gael eu gwneud yn WYTHNOSOL

Ni chaiff eitemau swmpus/bagiau gwastraff ychwanegol eu casglu



Mae casgliadau gwastraff gardd wedi eu gohirio



Mae casgliadau gwydr ar wahân wedi eu gohirio

**Defnyddiwch eich bagiau streipiau coch ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu (gan gynnwys cewynnau/padiau anymataliaeth).**

**Defnyddiwch eich cadi ymyl ffordd ar gyfer gwastraff bwyd***

**Parhewch i ddefnyddio'ch bagiau ailgylchu gwyrdd fel arfer, a rhowch y rhain nesaf at eich bin er mwyn eu casglu.**

**Bydd gwastraff hylendid (cewynnau/gwastraff anymataliaeth) yn cael ei gasglu'n wythnosol. Gallwch barhau i ddefnyddio eich bagiau melyn, neu gallwch ddefnyddio bagiau du.** Mae ein timau yn gwybod pa eiddo oedd yn defnyddio'r gwasanaeth hylendid, a byddant yn casglu bagiau ychwanegol o'r tu allan i'ch eiddo.

# NI FYDD EICH DIWRNOD CASGLU YN NEWID, OND GALL YR AMSER RYDYM YN CASGLU EICH GWASTRAFF NEWID

I wneud yn siŵr nad ydych yn methu eich casgliad, gwnewch yn siŵr bod eich gwastraff allan erbyn 6am ar eich diwrnod casglu. Gallai eich casgliad gael ei wneud unrhyw bryd rhwng 6am-10pm.

## SUT Y BYDDWN YN CASGLU EICH GWASTRAFF:

I symleiddio'r gweithrediadau gwastraff a sicrhau y gallant barhau gyda gweithlu llai, efallai na fydd yn bosib i ni ddidoli gwastraff ailgylchu yn ystod yr argyfwng, felly bydd yn mynd i'r gwaith Troi Gwastraff yn Ynni gyda'r gwastraff gweddilliol. Argyfwng iechyd cyhoeddus yw hwn, felly dyma'r ffordd fwyaf diogel o waredu gwastraff a allai fod yn cario COVID-19.

Lle rydym yn parhau i gasglu gwastraff bwyd ar wahân, bydd yn mynd i'n gwaith Treulio Anaerobig.

## PAM DYLEN NI BARHAU I WAHANU EIN HAILGYLCHU?

Rydym yn gofyn i breswylwyr mewn ardaloedd bagiau barhau i wahanu eu gwastraff bwyd. Bydd hyn yn ei gadw mewn cadi ymyl ffordd ac yn lleihau'r risg y caiff eich bagiau eu rhwygo ar agor.

Rydym yn gofyn i chi barhau i wahanu deunyddiau eraill mewn bagiau gwyrdd, yn union fel y byddech fel arfer. Rydym yn cydnabod na fyddai lle yn eich bin du/bagiau streipiau coch ar gyfer yr eitemau hyn pe na bai casgliad bagiau gwyrdd.

Mae golchi'r deunyddiau hyn cyn eu rhoi yn eich bagiau gwyrdd yn cadw'r deunydd yn lân ac yn hylan, i chi a'n timau casglu.

**Rydyn ni eisiau i bawb gadw eu harferion ailgylchu arferol. Pan fydd yr argyfwng hwn ar ben, rydym yn hyderus y gallwn fod y ddinas ailgylchu arweiniol yn y DU unwaith eto.**

## SUT Y GALLWCH HELPU I GADW EIN STAFF YN DDIOGEL:

Diheintiwch handlenni eich bin/cadi ymyl ffordd cyn ac ar ôl eich casgliad. Dilynwch y cyngor ar waredu gwastraff heintus sydd i'w weld yn **www.caerdydd.gov.uk/coronafeirws**

Byddwch yn amyneddgar wrth i'n timau casglu ddatblygu'r ffordd newydd hon o weithio. Codwch eich llaw a rhowch wên i'n timau pan welwch chi nhw - maen nhw'n **#GweithioDrosGaerdydd** o hyd ac mae gwên yn rhoi hwb i forâl pawb.



*Os nad oes gennych gadi ymyl ffordd, cadi cegin neu fagiau cadi, mae modd eu harchebu ar-lein yn **www.caerdydd.gov.uk/ailgylchu** neu drwy'r ap CardiffGov.

CARDIFF
CAERDYDD

**Preswylwyr yn dangos eu gwerthfawrogiad i'r criwiau casglu gwastraff**

Mae rhieni a phlant wedi dechrau anfon negeseuon personol at eu criwiau casglu gwastraff drwy atodi lluniau a negeseuon i'w bagiau ailgylchu gwyrdd a'u biniau olwynion du.

Ddoe (Mawrth 30), atododd preswylwyr sy'n byw ym Mhentyrch, Radur, y Tyllgoed a Chreigiau luniau a chapsiynau at eu biniau a'u bagiau gwastraff - roedd llawer yn cynnwys y neges symlaf a'r orau oll, sef 'Diolch'.

Yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus mae Cyngor Caerdydd wedi symud i gasgliadau ymyl y ffordd wythnosol, ac eithrio gwastraff gardd. Mae hyn i sicrhau nad oes gwastraff yn cronni ar strydoedd y ddinas.

Dywedodd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd: "Gyda'r pandemig parhaus hwn, mae ein criwiau gwastraff yn gwneud eu gorau glas mewn amodau heriol iawn.

"Ar adeg fel hyn, mae cadw ysbryd uchel ymysg ein gweithlu yn bwysig iawn ac mae'r criwiau'n ddiolchgar iawn am y negeseuon a gawsant. Mae'n wych gweld plant a mwy na thebyg ychydig o oedolion hefyd yn gadael negeseuon i'r criwiau er mwyn dangos eu gwerthfawrogiad.

"Nod y Cyngor yw parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i breswylwyr yn ystod yr argyfwng hwn. Ond er mwyn gwneud hynny, mae angen i breswylwyr ddilyn y cyfarwyddiadau a roddwyd ynglŷn â sut y dylent gyflwyno eu gwastraff.

"Rydym wedi symud i un casgliad wythnosol ar gyfer popeth ond gwastraff gardd. Ni all y cyfleuster troi gwastraff yn ynni dderbyn hwnnw.

"Rwy'n gwybod y bydd gan rai preswylwyr gwestiynau am sut mae pethau'n gweithio a cheir atebion i lawer o'r rheini yma

"Yn hollbwysig, mae'r Cyngor hefyd yn ailgyfeirio criwiau er mwyn i ni allu canolbwyntio ar gael gwared ar wastraff y GIG yn ystod yr argyfwng. Gyda'r newyddion bod Stadiwm Principality hefyd yn cael ei droi'n ysbyty, mae'r Cyngor yn paratoi cynlluniau ar gyfer sut y byddwn yn gwasanaethu'r cyfleuster newydd hwn. Rydym yn gwneud popeth y gallwn gyda'r adnoddau prin sydd ar gael. Dyna pam mae angen i bobl weithio gyda ni a deall pam rydym wedi gorfod atal casgliadau gwastraff gardd a newid y ffordd rydym yn delio â gwastraff am y tro. Byddwn yn dychwelyd y trefniadau i'r arfer cyn gynted ag y gallwn.

"Mae hefyd yn bwysig bod pobl yn parhau i ailgylchu a defnyddio eu bagiau gwyrdd ar gyfer hyn. Byddwn yn dychwelyd at broses ailgylchu arferol cyn gynted ag y gallwn ac mae'n bwysig nad ydym yn torri'r arfer o ailgylchu'n gywir. Mae Caerdydd yn un o'r dinasoedd ailgylchu gorau yn y byd ac rydym eisiau bod y gorau yn y byd.
"Drwy weithio gyda'n gilydd gall pob un ohonom helpu i sicrhau bod gwastraff yn cael ei symud o strydoedd y ddinas yn ddiogel ac mor gyflym â phosibl."

**Cynnal plant i weithwyr allweddol**

Rydym heddiw wedi prosesu 100 o geisiadau pellach am lefydd gofal plant i weithwyr allweddol i ddechrau yfory, Dydd Mercher 1 Ebrill.

Rydym yn derbyn nifer uchel o geisiadau a’n nod yw gallu cynnig mwy o lefydd cyn gynted ag y bo modd.

AM ragor o wybodaeth neu er mwyn cofrestru ewch i [http://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Cynllunio-at-Argyfwng-a-Gwydnwch/gwybodaeth-ynghylch-coronafeirws/gofal-plant-i-weithwyr-allweddol/Pages/default.aspx](http://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Cynllunio-at-Argyfwng-a-Gwydnwch/gwybodaeth-ynghylch-coronafeirws/gofal-plant-i-weithwyr-allweddol/Pages/default.aspx)

Bydd unrhyw deulu a dderbyniodd le gofal plant yn eu hysgol leol yr wythnos ddiwethaf yn parhau i fod â lle yn eu lleoliad dynodedig.

**Trefniadau Ymbellhau Cymdeithasol ar gyfer Rhandiroedd**

Gellir parhau i ddefnyddio rhandiroedd Caerdydd yn ystod cyfnod parhaus COVID-19, ond yn unol â chyngor y Llywodraeth, cyflwynwyd canllawiau newydd i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

- Os ydych yn hunan-ynysu, peidiwch â mynd i mewn i'r safle
- Cyfyngwch ymweliadau i 1 awr y dydd, yn unol ag argymhellion ymarfer corff dyddiol.
- Cofiwch ymarfer ymbellhau cymdeithasol gyda’ch gilydd, cadwch 2 fetr i ffwrdd o eraill a chyfyngwch gysylltiad â'ch gilydd gymaint â phosib.
- Ewch ar eich pen eich hun, peidiwch â mynd â theulu a ffrindiau gyda chi.
- Cadwch hylif diheintio dwylo gyda chi a'i ddefnyddio'n rheolaidd, yn enwedig cyn ac ar ôl agor a chau gatiau a chyffwrdd cloeon.
- Gwisgwch fenig tafladwy a newidiwch y rhain yn rheolaidd.
- Peidiwch â rhannu offer.  Sychwch eich offer eich hun ar ôl eu defnyddio.
- Peidiwch â golchi eich dwylo mewn cafnau dŵr.
- Arhoswch ar eich llain eich hun, peidiwch â mynd i mewn i leiniau eraill, hyd yn oed os cawsoch ganiatâd ymlaen llaw

Mae’r holl gyfleusterau cymunedol ar gau, gan gynnwys toiledau.